# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 5

GORFODI SAFONAU

## PENNOD 8

CYFFREDINOL

*Rhwystro a dirmygu*

### 107 Rhwystro a dirmygu

(1) Os bodlonir y Comisiynydd fod yr amod yn is-adran (2) wedi cael ei fodloni o ran person, caiff y Comisiynydd ddyroddi tystysgrif i'r perwyl hwnnw i'r Uchel Lys.

(2) Yr amod yw bod y person—

- (a) heb esgus cyfreithlon, wedi rhwystro cyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Rhan hon, neu
- (b) wedi cyflawni gweithred o ran ymchwiliad o dan adran 71 a fyddai, pe bai'r ymchwiliad yn achos yn yr Uchel Lys, yn ddirmyg llys.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn dyroddi tystysgrif o dan is-adran (1), caiff yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater.

(4) Os bodlonir yr Uchel Lys fod yr amod yn is-adran (2) wedi ei fodloni o ran y person, caiff drin y person mewn unrhyw ffordd y byddai wedi trin y person pe bai'r person wedi cyflawni dirmyg llys o ran yr Uchel Lys.

**Statws** This is the original version (as it was originally enacted).

*Dogfen polisi gorfodi*

### 108 Dogfen polisi gorfodi

(1) Rhaid i'r Comisiynydd lunio dogfen polisi gorfodi.

(2) Caiff y Comisiynydd ddiwygio'r ddogfen polisi gorfodi.

(3) Dogfen yw dogfen polisi gorfodi sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y mae'r Comisiynydd yn bwriadu mynd ati i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Rhan hon.

(4) Ni chaniateir i'r Comisiynydd lunio neu ddiwygio'r ddogfen polisi gorfodi heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd—

- (a) sicrhau bod copi o'r ddogfen polisi gorfodi ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Comisiynydd, a
- (b) sicrhau y perir bod copïau o'r ddogfen polisi gorfodi ar gael mewn mannau eraill a thrwy ddulliau eraill (gan gynnwys dulliau electronig) sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd.

(6) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y trefniadau ar gyfer archwilio a chael at gopïau o'r ddogfen polisi gorfodi yn cael eu cyhoeddi mewn modd sy'n dwyn y trefniadau hynny i sylw personau sy'n debygol yn nhyb y Comisiynydd o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant yn y ddogfen.

*Cofrestr camau gorfodi*

### 109 Cofrestr camau gorfodi

(1) Rhaid i'r Comisiynydd greu a chynnal cofrestr camau gorfodi.

(2) Rhaid i'r gofrestr camau gorfodi gynnwys yr oll o'r canlynol—

- (a) disgrifiad o bob ymchwiliad yr ymgymerwyd ag ef gan y Comisiynydd;
- (b) o ran pob ymchwiliad yr ymgymerwyd ag ef, yr wybodaeth a ganlyn fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad ar yr ymchwiliad—
  - (i) canfyddiadau'r Comisiynydd ar yr ymchwiliad;
  - (ii) dyfarniad y Comisiynydd ar a yw D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol ai peidio;
  - (iii) y datganiad sy'n nodi a weithredodd y Comisiynydd ymhellach ai peidio;
  - (iv) os gweithredodd y Comisiynydd ymhellach, datganiad ar y gweithredu hwnnw;
- (c) o ran pob ymchwiliad yr ymgymerwyd ag ef, manylion am unrhyw hysbysiad penderfynu a roddwyd;
- (d) manylion apelau a wnaed i'r Tribiwnlys o dan Bennod 4 (gan gynnwys penderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).

(3) Rhaid i'r Comisiynydd ddiweddaru'r gofrestr camau gorfodi'n barhaus.

(4) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) sicrhau bod copi o'r gofrestr camau gorfodi ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Comisiynydd, a

(b) sicrhau y perir bod copïau o'r gofrestr camau gorfodi ar gael mewn mannau eraill a thrwy ddulliau eraill (gan gynnwys dulliau electronig) sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y trefniadau ar gyfer archwilio a chael at gopïau o'r gofrestr camau gorfodi yn cael eu cyhoeddi mewn modd sy'n dwyn y trefniadau hynny i sylw personau sy'n debygol yn nhyb y Comisiynydd o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant yn y gofrestr.

(6) Yn yr adran hon ystyr "ymchwiliad" yw ymchwiliad o dan adran 71.

*Dehongli*

**110 Dehongli**

Yn y Rhan hon—

ystyr "camau gorfodi" ("*enforcement action*"), mewn perthynas ag ymchwiliad o dan adran 71, yw un neu ragor o'r canlynol—

(a) ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu at ddiben atal methiant D rhag parhau neu gael ei ailadrodd;

(b) ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau at ddiben atal methiant D rhag parhau neu gael ei ailadrodd;

(c) rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D;

(d) ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant;

(e) gosod cosb sifil ar D;

ystyr "person a chanddo fuddiant" ("*interested person*") mewn perthynas ag ymchwiliad o dan adran 71 yw—

(a) D, a

(b) os yw'r ymchwiliad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, y person a wnaeth y gŵyn.